




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Byw â phoen ddi-baid yng Nghymru

Mae'r daflen hon yn un **hawdd ei deall**
gan Lywodraeth Cymru



Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau newydd ynglŷn â byw â phoen hirdymor.

Byw â phoen

Mae llawer o bobl yng Nghymru yn byw â phoen hirdymor.



Rydym am i bobl sy'n byw â phoen ddeall beth sy'n cael ei ddweud wrthynt.

Rydym am i bobl sy'n byw â phoen gael eu gweld gan y person cywir ar yr amser cywir.



Rydym am i bobl sy'n byw â phoen ddweud popeth sydd angen iddynt ei wybod wrth y rheini sy'n eu trin.

Rydym am i bobl sy'n byw â phoen deimlo bod pobl eraill yn gwrando.

Rydym am i bobl sy'n byw â phoen helpu i benderfynu sut y byddant yn cael eu trin.

Rydym am i bobl sy'n byw â phoen ddi-baid gael triniaeth a fydd yn gwella eu sefyllfa.

Rydym am i bobl sy'n byw â phoen gael cyngor mewn ffordd y gallant yn ei deall.



Rydym am i bobl sy'n byw â phoen gael gwybod pa gymorth sydd ar gael yn agos at eu cartrefi.

Tystiolaeth

Defnyddio ffeithiau a gwybodaeth i benderfynu pa driniaeth sydd orau i bobl yw tystiolaeth.



Rydym am i weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol roi triniaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Y Ffordd Ymlaen



Rydym am i bawb weithio gyda'i gilydd i feddwl am y ffyrdd gorau o roi cymorth i bobl.

Rydym am i bobl sy'n byw â phoen fod yn rhan o'r trafodaethau a'r sgysiau.

Gofal Iechyd Darbodus sy'n Seiliedig ar Werth

Gwneud penderfyniadau yn y ffordd orau bosibl yw Gofal Iechyd Darbodus sy'n Seiliedig ar Werth.



Rydym am i weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol wneud dim ond y mae angen iddynt ei wneud.

Rydym am i weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Defnyddio ffeithiau a data i benderfynu pa driniaeth sydd orau i bobl yw dystiolaeth.



Rydym am i bobl sy'n byw â phoen gael gwybodaeth a dewis.

Hunanreolaeth â Chymorth



Rydym am i bobl sy'n byw â phoen gael gwybod y gwir am ba mor dda yw triniaeth.



Rydym am i bobl sy'n byw â phoen gael cymorth i wneud cynllun.

Rydym am i bobl sy'n byw â phoen gael gwybodaeth sy'n hawdd ei deall.

Rydym am i bobl sy'n byw â phoen gael gwybod o ble y gallant gael cymorth o wahanol ffynonellau.

Rydym am i anghenion iechyd a chymdeithasol pobl gael eu hystyried gyda'i gilydd.

Beth fydd yn digwydd nesaf?



Bydd byrddau iechyd yng Nghymru yn edrych ar y canllawiau hyn ac yn gwneud yn siŵr bod gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn rhoi triniaeth yn y ffordd gywir.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y canllawiau hyn, gallwch ysgrifennu i'r Llywodraeth drwy anfon e-bost atom i'r cyfeiriad hwn:

populationhealthcare@llyw.cymru